Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **MS Teams** |
| **Dyddiad:** | **14 Gorffennaf 2025** |
| **Amser:** | **9am-11am** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Dros Dro, Ifan Charles<br>Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harris<br>Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Carys Morgans<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Nicola Davies<br>Pennaeth Cyllid, Michelle Reynolds * |
| **Hefyd yn bresennol:** | Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey (GS)<br>Cymorth Gweithredol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Sophie Morgan (SM)<br>Ditectif Brif Uwch-arolygydd Dros Dro Adran Cyfiawnder Troseddol, Ross Evans (RS)**<br>Rheolwr Prosiect – Llywodraethu a Newid, Charlie Guerin (CG)*** |

- Mynychodd y Pennaeth Cyllid, Michelle Reynolds * ar gyfer eitem agenda 5c Diweddariad ar gyllid.
- Ditectif Brif Uwch-arolygydd Dros Dro yr Adran Cyfiawnder Troseddol, Ross Evans (RS)** yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda Diweddariad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched ac eitem 3d ar yr agenda Adroddiad Arolygu – Ffynhonnell Cudd-wybodaeth Ddynol.
- Rheolwr Prosiect – Llywodraethu a Newid, Charlie Guerin (CG)*** yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda Diweddariad Trais yn erbyn Menywod a Merched.

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y CHTh bawb i'r cyfarfod. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|
| PB 074 | PB074Trefnu bod meysydd i'w gwella penodol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn cael eu | **Ar y gweill**<br>Wedi'i gynnwys ym mlaengynllun gwaith y Bwrdd Plismona |

| | | |
|---|---|---|
| | gwneud yn bynciau ffocws yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona sydd ar ddod. | |
| PB 075 | Cam gweithredu: Cynnal adolygiad o'r galw yn ystod yr haf, ac addewid yr heddlu i'r gymdogaeth yn bwnc ffocws yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona yn yr hydref. | **Ar y gweill**<br>Wedi'i gynnwys ym mlaengynllun gwaith y Bwrdd Plismona |
| PB 076 | Ychwanegu adran gwersi a ddysgwyd at adroddiad yr adolygiad o'r cynhyrchiant blynyddol. | **Wedi'i gwblhau** |
| PB 077 | Anfon llythyr ar y cyd ar ran y CHTh a'r Prif Gwnstabl Dros Dro at brif weithredwyr ac uwch-arweinwyr yr awdurdodau lleol parthed datblygiadau a chynlluniau o fewn yr heddlu ynglŷn â'r adolygiad o ymyrraeth, atal ac ymgysylltu o ran plant a phobl ifanc yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. | **Ar y gweill** |
| P 078 | Drafftio cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol parthed yr adolygiad o ymyrraeth, atal ac ymgysylltu o ran plant a phobl ifanc yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. | **Ar y gweill** |
| PB 079 | Swyddfa'r Staff i gadarnhau'r broses brysbennu wrth ystyried adolygu a rhannu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad er diogelu'r cyhoedd ag asiantaethau partner, ac i gadarnhau a ydyw'r holl hysbysiadau er diogelu'r cyhoedd yn cael eu cyfeirio at bartneriaid. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Gwybodaeth bellach wedi'i darparu i'r bwrdd. |
| PB 080 | Y CHTh i rannu dogfen grynodeb Uned Gyswllt yr Heddlu â'r Prif Gwnstabl Dros Dro parthed stopio a chwilio mewn perthynas â phlant. | **Wedi'i gwblhau** |

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Diweddariad trais yn erbyn menywod a merched

Cafodd y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda trais yn erbyn menywod a merched ac ymgyrch Rhagorol gan Dditectif Brif Uwch-arolygydd Dros Dro yr Adran Cyfiawnder Troseddol (RS).

Darparodd CG, y Rheolwr Prosiect ar gyfer Llywodraethu a Newid, arddangosiad o gynlluniwr camau gweithredu y cynllun cyflawni ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched a ddefnyddir i gofnodi camau gweithredu ac argymhellion ac a neilltuwyd i swyddogion i'w cwblhau. Mae'r cynlluniau gweithredu'n cael eu hadolygu'n fisol gan brif uwch-arolygwyr a chaiff arweinwyr eu dwyn i gyfrif o ran y broses o lunio'r cynlluniau gweithredu. Yna adroddir ar hyn bob deufis i brif swyddogion

**Camau gweithredu: Diweddariad pellach ar Drais yn erbyn Menywod a Merched i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ym mis Ionawr 2026.**

### b) Datganiad Rheoli'r Heddlu

Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu wedi'i gwblhau a'i rannu ag Arolygiaeth Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Bydd y datganiad hwn yn arwain at rai o'r trafodaethau ehangach mewn perthynas â chyllideb yr heddlu a'r cylch cynllunio ariannol yn y dyfodol.

Nododd y CHTh, yn ystod arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, y gofynnwyd iddo a oedd wedi gweld y Datganiad Rheoli'r Heddlu cyfredol a'i farn ar y ddogfen.

Gofynnodd y Prif Weithredwr a ddylai meysydd penodol o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu fod yn bwnc ffocws ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Plismona yn y dyfodol.

**Camau gweithredu: - Meysydd penodol o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu i fod yn bynciau ffocws ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Plismona sydd ar ddod.**

Manylodd y Prif Gwnstabl Dros Dro ar y broses ar gyfer cwblhau Datganiad Rheoli'r Heddlu.

Cyfeiriodd y CHTh at y nifer uchel o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch yn gynyddol ers 2021. Nododd y Prif Weithredwr y byddai'r Bwrdd Plismona ym mis Medi yn canolbwyntio ar ddatblygu sefydliadol ac awgrymodd y dylid cynnwys diweddariad ar absenoldeb oherwydd salwch. Cytunodd y bwrdd â'r awgrym hwn.

**Cam gweithredu: Diweddariad ar absenoldebau salwch i'w ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi.**

## c) Bwrdd Newidiadau Gweithredol ac Effaith y Gwasanaeth Prawf

Cafodd y bwrdd bapur yn rhoi gwybodaeth am newidiadau sylweddol i bolisi dedfrydu yn deillio o adolygiad dedfrydu annibynnol Llywodraeth y DU, a diwygiadau i'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref. Mae gan y newidiadau hyn oblygiadau eang ar gyfer rheoli troseddwyr yn y ddalfa ac yn y gymuned.

Bwriad y diwygiadau yw mynd i'r afael â gorlenwi carchardai, lleihau aildroseddu, a moderneiddio'r system gyfiawnder trwy wneud mwy o ddefnydd o adsefydlu, cymhellion strwythuredig, a dewisiadau arall heblaw anfon i'r carchar. Gyda'i gilydd, disgwylir i'r mesurau hyn ryddhau tua 9,500 i 10,000 o leoedd mewn carchardai, gan sicrhau lle ar gyfer troseddwyr difrifol ac ar yr un pryd lleihau'r ddibyniaeth ar ddedfrydau byr o garchar. Mae gan adolygiad dedfrydu annibynnol a diwygiadau i'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref ill dau oblygiadau gweithredol i nifer o randdeiliaid, gan gynnwys llysoedd, y Gwasanaeth Prawf, gwasanaethau iechyd, tai, awdurdodau lleol, a gwasanaethau'r heddlu.

Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd Plismona yn amlinellu'r camau y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu cymryd i sicrhau ymateb cydlynol a chydweithredol. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin â'r newidiadau sydd ar ddod mewn dull rhagweithiol a chydlynol. Mae strwythurau gorchymyn sefydledig, ymgysylltu cynnar â phartneriaid, a phrosesau rheoli risg cadarn yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi diogelwch cymunedol a sicrhau parodrwydd gweithredol. Er mwyn sicrhau gweithrediad a goruchwyliaeth leol effeithiol:

- Bydd grŵp aur amlasiantaeth, dan gadeiryddiaeth y Prif Uwch-arolygydd Jolene Mann, yn arwain gwaith cydlynu strategol a briffiau partneriaid.
- Bydd grŵp arian amlasiantaeth ategol ar gyfer cydlynu rhyddhau, dan gadeiryddiaeth y Ditectif Uwch-arolygydd Wayne Bevan, yn datblygu ac yn adolygu asesiadau risg a chynlluniau rheoli ar gyfer pob achos rhyddhau cynnar, gan gyd-fynd â threfniadau Rheoli Troseddwyr yn Integredig, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn ôl yr angen.
- Mae ymgysylltiad cychwynnol â'r Gwasanaeth Prawf (Liz Bowen, Pennaeth Uned Gyflawni Leol, Gwasanaeth Prawf Dyfed-Powys), yn dangos nifer isel o achosion cymwys, yn ôl pob tebyg mewn rhifau sengl ar gyfer Dyfed-Powys.
- Bydd y strwythur aur/arian hefyd yn goruchwylio goblygiadau newidiadau i'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref.
- Defnyddiwyd y model hwn yn effeithiol yn ystod cyfnodau rhyddhau cynnar blaenorol, gan gyflawni canlyniadau cryf ar gyfer diogelwch y cyhoedd, cydlynu amlasiantaeth a thawelu meddwl y gymuned.
- Mae cyfarfod cyntaf y grŵp aur yn cael ei gynllunio ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau 28 Gorffennaf 2025, yn amodol ar gadarnhad o nifer yr achosion a'r proffiliau risg.

Mae Bwrdd Newidiadau Gweithredol ac Effaith Gwasanaeth Prawf Cymru ar waith i gydlynu cyfathrebu a pharatoadau â rhanddeiliaid.

### d) Adroddiad arolygu – Ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol

Cafodd y bwrdd adroddiad ar adolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ar gudd-wylio a ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol ar gyfer yr heddlu. Cynhaliwyd yr arolygiad i asesu lefel cydymffurfiaeth yr awdurdod cyhoeddus hwn â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a rhan III o Ddeddf yr Heddlu 1997 mewn perthynas â'i ddefnydd a'i reolaeth o gudd-wylio, ffynonellau cuddwybodaeth ddynol ac ymyrraeth ag eiddo.

Ni nododd yr adroddiad unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â sylwadau a wnaed gan yr arolygiad a fydd yn cael sylw prydlon a manwl gan yr heddlu.

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

### a) Yn dilyn cynnydd yn nifer yr achosion o hunanladdiad tybiedig yn Sir Gaerfyrddin eleni, a all y Prif Gwnstabl roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgaredd ymgysylltu a gynhaliwyd gan dimau plismona ac atal bro yn y cymunedau yr effeithir arnynt? A yw'r math o ymgysylltiad yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad (trefi o'u cymharu â chymunedau mwy gwledig)? Sut mae'r heddlu wedi cydweithio â phartneriaid eraill i gyfeirio negeseuon i'r cymunedau yr effeithir arnynt?

Mewn ymateb i'r nifer cynyddol o achosion y tybir eu bod yn hunanladdiad yn ardal Sir Gaerfyrddin, mae Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd rhan weithredol yn ymateb y gymuned. Mynychodd Cydlynydd Iechyd Meddwl Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed o fewn yr heddlu gyfarfod â Phennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin a'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed lle gwnaethant adolygu'r wybodaeth sydd ar gael a phenderfynwyd bod angen cyfarfod "Achos Pryder", gyda chynulleidfa ehangach.

Hyd yn hyn, cynhaliwyd dau gyfarfod "Achos Pryder", dan gadeiryddiaeth Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin, a chaiff y camau gweithredu/ymatebion o'r cyfarfodydd eu cydlynu gan Gydlynydd Atal Hunanladdiad awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Tynnwyd sylw at feysydd penodol o bryder ac mae asiantaethau'n cydweithio i ymateb i bryderon. Mae'r rhain yn cynnwys yr awdurdod lleol, gwasanaethau iechyd meddwl, y trydydd sector (sefydliad DPJ, MIND, Papyrus, Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol (NALS) a'r sector addysg. Mae timau plismona ac atal bro, swyddogion cyswllt ysgolion a'r Tîm Troseddau Gwledig yn gweithio'n weithredol gydag asiantaethau a'r cyhoedd hefyd.

**Camau gweithredu: - Dylai'r heddlu ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae canfyddiadau'r cyfarfodydd "Achos Pryder" yn bwydo i gyfarfodydd atal tactegol a strategol a sut mae hyn yn pennu tasgau i'r timau plismona ac atal bro lleol dreulio amser yn yr ardaloedd cywir.**

**b) A oes gan Heddlu Dyfed-Powys bolisi a gweithdrefn ar waith sy'n ymwneud ag atafaelu canabis rhagnodedig cyfreithlon? Os felly, a yw hyn yn cyd-fynd â chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu? Yn dilyn dinistrio canabis rhagnodedig ar gam mewn achos diweddar, a yw'r heddlu wedi adolygu eu hyfforddiant a'u hymwybyddiaeth ynghylch hyn i sicrhau bod pob swyddog yn ymwybodol o'r broses gywir?**

Mae hyn yn ymwneud â chwyn a ddaeth i law yn ddiweddar i'r heddlu. Adolygwyd y gŵyn gan yr Arolygydd ardal a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a ddaeth i'r casgliad bod dinistrio'r canabis yn yr amgylchiad hwn yn gamgymeriad prin.

Mae achosion lle mae canabis wedi'i ragnodi wedi'i ddychwelyd yn briodol – mae Gwasanaethau Cyfreithiol wedi rhoi cyngor i ddweud yr un peth pan fydd yr ymholiadau wedi dod i law.

Nid yw'r mater penodol hwn, sy'n ymwneud ag atafaelu a dychwelyd canabis rhagnodedig, wedi'i gynnwys ym mholisi'r heddlu, nac mewn hyfforddiant sy'n ymwneud ag atafaelu a chadw canabis rhagnodedig cyfreithlon. Mae hyfforddiant cychwynnol yn cyflwyno'r pynciau canlynol ar y pwnc:

- Pwy all feddu canabis meddyginiaethol ar bresgripsiwn.
- Beth yw cynhyrchion meddyginiaethol sy'n seiliedig ar ganabis.
- Cerdyn cancard

Mae'r heddlu wedi gofyn am ymateb gan dîm Portffolio Cyffuriau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu sy'n darparu'r wybodaeth ganlynol:

"Fel rwy'n deall, nid oes gan Dyfed-Powys bolisi / gweithdrefn benodol ar waith, nid yw Dyfed-Powys yn unigryw, ac mae plismona'n genedlaethol yn dal i ymdopi â chymhlethdodau plismona canabis er bod y newidiadau yn y gyfraith ynghylch cynhyrchion sy'n seiliedig ar ganabis at ddefnydd meddyginiaethol wedi newid yn 2018."

O ganlyniad, mae'r heddlu wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr plismona ac wedi llunio canllawiau drafft, ond, oherwydd y newid diweddar iawn yn swyddogion cyffuriau arweiniol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, nid yw wedi'i gytuno / ei gymeradwyo. Gobeithir y bydd hyn, maes o law, yn cael ei ddatblygu gyda'r swyddog arweiniol newydd.

**Camau gweithredu: - Dylai'r heddlu roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r polisi ynghylch canabis a ragnodir yn gyfreithlon yn cael ei ledaenu i swyddogion a staff.**

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Rhoddwyd adroddiad ar yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd, gan y Prif Gwnstabl, ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol. Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar waith da'r heddlu gan gynnwys digwyddiad hyfforddiant amlasiantaeth yng Ngheredigion, ymgyrch traffig y 'Pump Angheuol' yn Sir Gaerfyrddin a'r gweithrediad ynghylch dyfais ffrwydrol yn Llanelli yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol.

Trafododd y bwrdd y rhaglen deledu Y Byd ar Bedwar a oedd yn cael ei darlledu'r wythnos honno. Gofynnodd y Prif Weithredwr a oedd strategaeth ar waith gan yr heddlu i ddelio ag unrhyw ymholiadau dilynol a allai ddod ar ôl darlledu'r rhaglen. Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl Dros Dro y byddai strategaeth yn cael ei thrafod yng nghyfarfod grŵp y prif swyddogion y diwrnod hwnnw ac y gallai adrannau cyfathrebu'r heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gysylltu â'i gilydd wedyn.

### b) Diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a chyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys diwrnod ymgysylltu cymunedol yn Llanelli a Phowys, cyfarfod â'r Tîm Troseddau Gwledig a mynychu diwrnod rhanddeiliaid yn dathlu bwyd a Wythnos Ffermio Cymru.

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad i'r bwrdd yn dilyn cyfarfod â Rick Muir, cynorthwyydd i'r Ysgrifennydd Cartref, i dynnu sylw at y materion o safbwynt Cymru mewn perthynas â diwygio'r heddlu. Mynegodd y CHTh rwystredigaeth hefyd ynghylch canslo ymweliad y Gweinidog Plismona â Chymru.

**Camau gweithredu: - Y CHTh i drafod ag Uned Gyswllt yr Heddlu a Chadeirydd Plismona yng Nghymru y posibilrwydd o anfon llythyr at y Gweinidog Plismona ynghylch ymweliadau â Chymru.**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar yr amserlen ar gyfer proses recriwtio Prif Gwnstabl.

### c) Diweddariad ar gyllid

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd a thrafododd y bwrdd yr wybodaeth a ddarparwyd. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ariannol byr i'r Bwrdd Plismona ar y sefyllfa ar 9 Gorffennaf 2025. Mae'n crynhoi'r sefyllfa alldro ddisgwyliedig ddiweddaraf ar

gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol – 2025/6 – yn seiliedig ar wariant hyd at 30 Mehefin 2025. Ar hyn o bryd mae hyn £0.015 miliwn o fewn y gyllideb.

Roedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2025/6 yn rhagdybio codiad cyflog o 2.8% o fis Medi 2025 ar gyfer swyddogion a staff. Yn seiliedig ar gynigion setliad cyflog eraill y sector cyhoeddus (tua 4%), disgwylir y gallai'r Ysgrifennydd Cartref gytuno ar ddyfarniad cyflog o tua 3.8% o fis Medi 2025 ac mae hyn wedi'i ystyried yn y rhagamcaniad ar gost ychwanegol o £0.771 miliwn. Nid yw lefel cyllid grant ychwanegol (os ceir o gwbl) a allai lifo o ganlyniad i hyn wedi'i chadarnhau ac nid wedi'i chynnwys ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar y cynllun gweithlu diweddaraf sydd wedi'i ddiweddaru ac yn adlewyrchu costau ychwanegol ar gyfer archwiliadau meddygol sy'n gysylltiedig â gweithgaredd recriwtio. Bu angen gwneud rhagdybiaethau ar y cam hwn mewn perthynas ag amserlenni penodiadau staff yr heddlu ar gyfer swyddi a ariennir gan Warant Plismona Bro a phraesept.

Ymddengys bod cyllidebau swyddogion yr heddlu yn llai na'r gyllideb oherwydd llithriad recriwtio trosglwyddwyr a lefel y rhai sy'n gadael, wedi'i wrthbwyso gan y cynnydd yn y dyfarniad cyflog, tra bod costau staff yr heddlu yn fwy na'r gyllideb oherwydd y cynnydd amcangyfrifedig yn y dyfarniad cyflog.

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cael gwybod am oedi wrth wirio'r rheini sy'n trosglwyddo o heddluoedd eraill ac oherwydd yr oedi, bod swyddogion wedi penderfynu peidio â throsglwyddo i'r heddlu.  Diweddarodd y Prif Gwnstabl fod yr uned fetio yn blaenoriaethu recriwtiaid newydd a'r Warant Plismona Bro ynghyd â'r rhai sy'n trosglwyddo o heddluoedd eraill. Derbyniwyd carfan o drosglwyddeion ym mis Tachwedd.

**Camau gweithredu: -I'r heddlu gadarnhau nifer y trosglwyddeion sy'n ymuno â'r heddlu ym mis Tachwedd.**

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod yr Arfer Proffesiynol Awdurdodedig newydd gan y Coleg Plismona yn golygu bod yn rhaid i oruchwylwyr y trosglwyddeion lenwi ffurflen er mwyn i'r trosglwyddiad ddigwydd. Mae hyn yn achosi rhywfaint o oedi ychwanegol yn y broses.

Diweddarodd y Prif Weithredwr fod materion yn ymwneud â gwirio yn cael eu trafod yn fanwl yn y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol ac yn y cyfarfod nesaf gall y bwrdd ystyried pa eitemau fyddai'n ddefnyddiol i'w cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Plismona i'w trafod.

Trafododd y bwrdd y gyfradd gadael swyddi o fewn yr heddlu.

**Camau gweithredu: - Darparu papur i'r Bwrdd Plismona ynghylch y gyfradd gadael swyddi o fewn yr heddlu.**

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth a dadansoddiad cychwynnol o ganlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a gyhoeddwyd gan y Canghellor ar 11 Mehefin 2025.

O ran y diffyg ariannol a ragwelwyd yn erbyn Gan Bwyll yn y flwyddyn gyfredol, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y rhagamcanion ar hyn o bryd, ac rydym yn aros am gynigion a phenderfyniadau pellach ar wariant a chyllid.

O ran gwariant cyfalaf hyd at ddiwedd mis Mehefin 2025, mae gwaith manwl yn digwydd ar hyn o bryd i gadarnhau'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/6 a sefydlu llithriad posibl.  Mae adolygiad o raglen gyfalaf 2026/7 ar y gweill ar hyn o bryd gan bob adran a'r partneriaid busnes cyllid i fwydo i'r broses Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Cyhoeddodd y Canghellor gynlluniau gwariant ar gyfer plismona fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ar 11 Mehefin 2025. Mae'r cynnydd pennaf yn cyfateb i gynnydd o £2.1 biliwn dros dair blynedd neu 11.2%, sy'n cyfateb i tua 3.7% y flwyddyn.  Mae'r llinell sylfaen bennawd o £18.7 biliwn hefyd yn cynnwys Gwarant Plismona Bro, praesept (gyda chynnydd tybiedig o tua 5.8%), yn ogystal â gwariant gwrthderfysgaeth o tua £1.160 biliwn.

Gan weithio'n ôl o'r cyfanswm hwn, amcangyfrifir y gallai'r grant craidd gynyddu tua 2.1% yn 2025/6, 2.3% yn 2027/8 a 0.4% yn 2028/9 yn unol â'r tabl isod. Mae hyn yn caniatáu dyraniad ychwanegol o £200 miliwn tuag at y Warant Plismona Bro yn 2026/7 a chynnydd o £14 yn y dreth gyngor ym mand D ynghyd â chynnydd o 0.8% y flwyddyn yn y sylfaen dreth.

Mae gwaith manwl yn parhau i gael ei wneud i gadarnhau'r gofyniad cyllidebol a ragwelir ar gyfer y cyfnod 2026/7 i 2028/9 a sefydlu gofyniad cynllun lleihau costau wedi'i ddiweddaru, a ragwelir ar hyn o bryd y bydd rhwng £4 miliwn a £6 miliwn ar gyfer y cyfnod tair blynedd. Mae'r gwasanaeth yn pwyso am ryddhau rhagor o wybodaeth am gynlluniau sy'n gysylltiedig â chamau nesaf y Warant Plismona Bro yn gynnar fel y gellir llunio cynlluniau gweithlu mewn da bryd.

Ni ddisgwylir i setliadau manwl ar lefel yr heddlu gael eu rhyddhau gan y Swyddfa Gartref tan fis Rhagfyr 2025. Mae'r Grŵp Cynllunio Ariannol Strategol a Thymor Canolig eisoes wedi cyfarfod ym mis Mehefin i ddechrau adolygu'r cynllun ariannol tymor canolig o ran cyfalaf a refeniw yn barod i'w ystyried gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

### d) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Mae'r heddlu wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd Rhaglen Adolygu'r Heddlu bellach yn dod i ben. Er gwaethaf hyn, bydd gwaith yn parhau i gyflwyno ffrydiau gwaith model gweithredu'r heddlu hyd at eu cwblhau dan arolygiaeth yr uwch-noddwyr.

Cyflwynwyd ail a thrydydd algorithm yr offer ymchwilio'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer troseddau difrod troseddol a siop-ladrad ar 14 Mai 2025.  Ar 16 Rhagfyr 2024, penderfynodd uwch-noddwyr y byddai'r pedwerydd algorithm yn cael ei

ddatblygu ar gyfer cyswllt â throseddau aflonyddu a chyfathrebu maleisus. Mae algorithm pedwar wedi'i ddatblygu a bydd ar gael i'w ddefnyddio ganol mis Gorffennaf 2025. Mae hyn yn barod i'w drafod ag uwch-noddwyr.

Gweithredwyd y patrwm rota newydd ar gyfer plismona ymatebol a'r ddalfa ar 8 Mai 2025. Mae'r adborth cynnar ar y patrwm rota newydd yn hynod gadarnhaol.

Daeth y broses ymgynghori ar gyfer newidiadau arfaethedig i batrwm rota ar gyfer yr uned ymchwilio lleol a'r adran ymchwilio troseddol i ben ar 11 Mai 2025. Cafodd cynnig terfynol, a newidiwyd yn sylweddol o ganlyniad i adborth a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, ei gymeradwyo gan uwch-noddwyr ar 19 Mai 2025. Bydd y newid hwn yn cyflawni nifer o welliannau gweithredol a rhai o ran lles a llesiant, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) diwrnodau gorffwys ychwanegol, hyd shifftiau ac amseroedd cychwyn cyson, cyfnodau trosglwyddo gwell ac alinio gwell o ran adnoddau a galw. Penderfynwyd y bydd y model hwn yn berthnasol ym mhob un o'r pedair uned reoli sylfaenol gyda rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol yn cael ei roi i Geredigion o ran patrymau gwaith lefel ditectif ringyll.

Mae'r ymgynghoriad ar gyfer newid arfaethedig i fodel gweithredu a rota'r Tîm Ymchwilio ar y Cyd a'r Uned Rheoli Troseddwyr bellach wedi dod i ben. Mae gwaith pellach ar y gweill, a'r bwriad yw y bydd y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn cael gwybod am y canlyniadau ym mis Gorffennaf 2025. Daeth y broses ymgynghori ar gyfer patrwm rota newydd ar gyfer Tîm Diogelu'r Cyhoedd a'r Tîm Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol i ben ar 23 Mehefin 2025 gyda'r adborth yn cael ei gyflwyno i uwch-noddwyr ar 7 Gorffennaf 2025.

Gweithredwyd model gweithredu newydd y timau plismona ac atal bro ar 3 Mawrth 2025. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r holl gytundebau gweithio hyblyg, ceisiadau trosglwyddo a gwelliannau strwythurol. Er gwaethaf hyn, mae'r ffrwd waith wedi'i hailgychwyn (timau plismona ac atal bro fersiwn 2.) o ganlyniad i'r Warant Plismona Bro. Pwrpas hyn fydd sicrhau bod amcanion y grant yn cael eu cyflawni a bod unrhyw gynnydd mewn adnoddau o fewn timau plismona ac atal bro yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'r llif gwaith hwn yn parhau.

Cafodd y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ffrydiau gwaith eraill gan gynnwys strwythur plismona gweithredol uwch, cofnodi troseddau a'r Uned Rheoli Adnoddau.

Yn dilyn y diweddariad a ddarparwyd yn y bwrdd diwethaf ynghylch cymysgedd y gweithlu, gwarant bro a chyllid praesept, mae gwaith yn parhau i gyflawni dyheadau'r heddlu i recriwtio 50 aelod o staff yr heddlu er mwyn galluogi 50 o swyddogion yr heddlu i ddychwelyd i rolau timau plismona ac atal bro a rolau rheng flaen.

Ers y diweddariad diwethaf:

- Mae 23 o ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu symud ymlaen trwy wiriadau cyn-gyflogaeth ar gyfer swyddi o fewn unedau ymchwilio lleol, fel swyddogion crwneriaid a gweithredwyr desg gwybodaeth fyw.

- Mae sawl rôl arall yn cael eu datblygu i alluogi recriwtio i'r 27 swydd sy'n weddill.
- Mae proses mynegi diddordeb yn cael ei datblygu i alluogi'r heddlu i ychwanegu 33 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn i'r timau plismona ac atal bro. Darparwyd diweddariad ar ffrwd waith model gweithredu'r heddlu fersiwn 2 ar gyfer timau plismona ac atal bro i uwch-noddwyr ar 7 Gorffennaf 2025 yn manylu ar y strwythur goruchwylio newydd a dosbarthiad daearyddol y 33 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn.

Cadarnhaodd uwch-noddwyr weithredu'r model aur a gyflwynwyd yn flaenorol i uwch-noddwyr yn dilyn yr adolygiad o atal, ymyrraeth ac ymgysylltu yn Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer plant a phobl ifanc i fwrw ymlaen â'r cynllun yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 23 Mehefin. Mae amserlen wedi'i chreu a grŵp prosiect wedi'i sefydlu i reoli'r camau gweithredu gofynnol, gyda'r grŵp hwnnw'n cyfarfod bob dydd Mercher. Mae ymgysylltu bellach yn parhau ag Adnoddau Dynol a chydweithwyr eraill, i flaenoriaethu recriwtio pob un o'r swyddi a amlinellwyd o fewn yr amserlen. Bydd llywodraethu'r prosiect yn parhau drwy strwythur bwrdd Rhaglen Adolygu'r Heddlu, gan fwydo'n uniongyrchol i'r cyfarfod gosodwr cyflymder wythnosol a'r fforwm uwch-noddwyr lle bo angen.

Mae uwch-noddwyr wedi penderfynu na fydd unrhyw newidiadau strwythurol ar raddfa fawr pellach tan 2026. Bydd hyn yn galluogi cyflawni ffrydiau gwaith parhaus gan leihau'r effaith ar wasanaethau cefnogi cyd-ddibynnol allweddol. Er bod yr heddlu'n parhau i fod ag uchelgeisiau i adolygu meysydd busnes a threfniadau gwaith eraill, bydd y rhain yn cael eu cynllunio yn Hydref 2025 i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn ganlynol. Mynegodd y CHTh ei gefnogaeth i'r dull hwn.

## e) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data

Darparodd y Prif Arolygydd Delyth Evans bapur diweddaru i'r bwrdd, gan dynnu sylw at y cynnydd a wnaed. O gyfanswm o 91 o achosion yr ymdriniwyd â nhw gan y maes busnes rheoli gwybodaeth ers mis Ionawr 2024, mae 65 yn mynd rhagddynt yn weithredol. Mae chwe asesiad o'r effaith ar ddiogelu data llawn wedi'u cymeradwyo ac yn weithredol. Mae chwe ffurflen sgrinio wedi cael eu hadolygu a'u cau gan nad oedd angen asesiad o'r effaith ar ddiogelu data llawn. Fodd bynnag, mae'r llwyth gwaith yn y maes hwn yn parhau i fod yn fawr ac mae amseroldeb yn parhau i fod yn bryder. Mae'r Prif Arolygydd Dros Dro wedi adolygu'r holl achosion sydd ar y gweill, ac wedi'u blaenoriaethu yn ôl y risg a achosir gan oedi (e.e. - caffael yn cael ei ohirio, gwasanaeth eisoes wedi'i gomisiynu):

- Blaenoriaeth uchel – 15
- Blaenoriaeth ganolig – 22
- Blaenoriaeth isel – 28

Mae taenlen wedi'i chynhyrchu i fonitro cynnydd a goruchwylio'r achosion hyn. Bydd yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd tîm wythnosol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a'i thrafod, ac i ganiatáu i adnoddau gael eu dyrannu lle bo angen i gynorthwyo.

Mae gwaith hefyd ar y gweill i adolygu prosesau a bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad llawn i'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Bydd hyn yn cynnwys ystyried datrysiadau TG, prosesau ac ati.

Mae cwrs hyfforddiant deuddydd wedi'i drefnu o fewn yr heddlu gyda chydlynydd rhannu data Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.

Mae cyfarfod nesaf y Gweithgor Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i drefnu ar gyfer 15 Gorffennaf.

**Camau gweithredu: - Y Prif Gwnstabl Dros Dro i gysylltu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro i egluro'r amserlen o amgylch gweithredu Microsoft Lists i gynorthwyo gyda asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data**

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Prif Weithredwr Porthladd Aberdaugleddau wedi ysgrifennu at y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i dynnu sylw at bryderon ynghylch diffyg asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar waith ers 2023 a'r anawsterau ymddangosiadol wrth geisio dod o hyd i ddatrysiad a ffordd ymlaen. Dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro y byddai'n ymchwilio i hyn ac yn ei drin fel mater o flaenoriaeth.

### f) Diweddariad ar baratoi ar gyfer arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu

Yn dilyn gohebiaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, darparwyd diweddariad gan yr Arolygydd Janas bod yr arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu nesaf ar gyfer Dyfed-Powys wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mai 2026. Ar hyn o bryd, y bwriad yw i Heddlu Dyfed-Powys fod yn y chweched tranche arolygu, ynghyd â Swydd Bedford a Swydd Gaerloyw.

Mae nifer o weithgareddau'n mynd rhagddynt i baratoi ar gyfer yr arolygiad gan gynnwys: cyfarfodydd hunanasesu fframwaith asesu effeithlonrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (dan gadeiryddiaeth yr Prif Gwnstabl Cynorthwyol), gweithgaredd meincnodi gyda heddluoedd eraill, cyfarfodydd misol adolygu a chymeradwyo argymhellion/meysydd i'w gwella Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi (gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl), a chyfarfodydd Teams gydag arweinwyr meysydd i'w gwella a Mick Montford, Arweinydd Cyswllt yr Heddlu ar gyfer Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Ar hyn o bryd mae'r Arweinydd Cyswllt yr Heddlu yn mynychu amrywiol gyfarfodydd llywodraethu'r heddlu i ddeall perfformiad presennol Heddlu Dyfed-Powys a rhai o'r heriau o fewn yr heddlu. Gweithgaredd arsylwi yw hwn ac nid yw'n rhan o weithgaredd casglu tystiolaeth ffurfiol.

Daeth gohebiaeth i law gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhydi sy'n cynnal arolygiad o Wasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru. Yr arolygiad hwn yw trydydd cam y rhaglen arolygu ardal sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwaith achosion o safon gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhydi wedi cynnal arolygiadau ledled De, Canolbarth a Gorllewin Cymru o 16 Mehefin i 4 Gorffennaf, a Gogledd Cymru o 7 i 11 Gorffennaf. Cynhaliwyd cyfweliadau arolygu gydag arweinwyr yn Nyfed-Powys ar 2 Gorffennaf 2025 yn y Pencadlys. Canfyddiadau ac adroddiad i ddilyn.

Daeth cadarnhad i law gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi y bydd arolygiad Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol rhanbarthol Cymru yn digwydd rhwng 15 a 19 Medi 2025.

Fel rhan o raglen cenedlaethol arolygiadau amddiffyn plant, disgwylir i Heddlu Dyfed-Powys fod ymhlith yr heddluoedd cynnar i gael eu harolygu gan iddynt gael eu harolygu ddiwethaf yn 2015. Sefydlwyd grŵp gwella plismona gweithredol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn flaenorol i gynnal hunanasesiad a nodi camau gwella cyn yr arolygiad.

## 6. Unrhyw fater arall

### a) Ymateb y Prif Gwnstabl i adroddiad ar arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant Sir Benfro

Roedd y CHTh yn ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl Dros Dro am yr ymateb i'r adroddiad ac y byddai ymateb y CHTh yn cael ei rannu â'r heddlu a'i gyhoeddi maes o law.

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 14 Gorffennaf 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| **PB 080** | Diweddariad pellach ar drais yn erbyn menywod a merched i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ym mis Ionawr 2026. | Yr heddlu |
| **PB 081** | Diweddariad ar absenoldebau salwch i'w ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Medi. | Yr heddlu |
| **PB 082** | Yr heddlu i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae canfyddiadau'r cyfarfodydd "Achos Pryder" yn bwydo i gyfarfodydd atal tactegol a strategol a sut mae hyn yn pennu tasgau i'r timau plismona ac atal bro lleol dreulio amser yn yr ardaloedd cywir. | Yr heddlu |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 083** | Yr heddlu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r polisi ynghylch canabis a ragnodir yn gyfreithlon yn cael ei ledaenu i swyddogion a staff. | Yr heddlu |
| **PB 084** | Bydd y CHTh yn trafod ag Uned Gyswllt yr Heddlu a Chadeirydd Plismona yng Nghymru y posibilrwydd o anfon llythyr at y Gweinidog Plismona ynghylch ymweliadau â Chymru. | SCHTh |
| **PB 085** | Yr heddlu i gadarnhau nifer y trosglwyddeion sy'n ymuno â'r heddlu ym mis Tachwedd. | Yr heddlu |
| **PB 086** | Papur i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ynghylch y gyfradd gadael swyddi o fewn yr heddlu. | Yr heddlu |
| **PB 087** | Y Prif Gwnstabl Dros Dro i gysylltu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro ynghylch eglurder ar yr amserlen o amgylch gweithredu Microsoft Lists i gynorthwyo Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data | Yr heddlu |

DIWEDD